

Maddeuant

Darlleniad: Ioan 15: 1-17

‘Uwch pob rhyw gariad is y nef
Yw cariad pur fy Nuw,
Anfeidrol foroedd dyfnion maith,
Heb fesur arno yw.’

Cydnabyddwn, O! Dad, mai hanfod dy fodolaeth yw dy gariad - ‘Duw cariad yw’ - ac o ganlyniad dy fod ti’n ymwneud â’r greadigaeth a bywyd dyn yn ôl llinyn mesur y cariad hwn. Y cariad yna sy’n arwyddo dy berffeithrwydd a’th ogoniant, ac sy’n cael ei amlygu i ni yn dy ofal amdanom a’th ddarpariaeth ar ein cyfer. Cydnabyddwn dy gariad fel cariad diderfyn. Cariad nad oes cyfyngu arno, cariad cyflawn sy’n mynd tu hwnt i hualau’r byd hwn, gan gofleidio dyn ymhob cyflwr a phob angen. Oherwydd Duw fel yna wyt ti! Tad trugarog sy’n edrych ar ddynolryw yn dy dosturi, y tosturi yna sy’n arwydd o’th gariad, ac sy’n rhoi bod i faddeuant.

Ym mherson dy Fab, Iesu Grist, gwelwn y maddeuant yna’n troi’n wahoddiad:

‘Ond rhad anfeidrol yw ei ras,
I bechaduriaid cyndyn cas;
A garodd Ef, fe’u dwg i maes
O’u pechod ac o’u braw.’

Y maddeuant yna a welir yn nhrefn rhagluniaeth, yn dy ddarpariaeth di, wrth i’r Iesu farw tros ein pechod, ond yn ei atgyfodiad gogoneddus goncro’r bedd, ‘colyn pechod’, a’n dwyn i gymod â thydi dy hun, fel bod dy faddeuant nid yn unig yn ffaith, ond trwy ffydd yn brofiad ac yn realiti oddi mewn inni heddiw. Cyffeswn ein gwendidau a’n ffaeleddau ger dy fron, yn ein perthynas â thi ac yn ein perthynas â’n gilydd. Deisyfwn dy

faddeuant am bob peth negyddol yn ein bywydau, sy'n aml yn arwyddion o'n gwendidau a'n hanallu. Trwy brofiad dy faddeuant, cwyd ni o afael yr hyn oll sy'n groes i'th ewyllys, ac yn hyn i gyd tyn ni'n nes atat mewn gair, gweithred a meddwl.

Gofynnwn ar i ti, yn dy faddeuant, gofio'r byd. Yn sŵn ei ryfeloedd, yn wyneb anghyfiawnder, yn nioddefaint y diniwed, maddau a thrugarha wrth dy bobl. Ac yn wyneb realiti, gweddiwn ar i ti ein cymell a'n harwain i ymarfer maddeuant yn ein perthynas â'n gilydd yng nghyd-destun ein bywyd fel pobl, fel eglwysi ac fel cymdeithas. Y weithred yma sy'n gyfrwng i adeiladu perthnasau gan roi bod i ymddiriedaeth a goddefgarwch, fel ein bod ni'n arwydd, a'n gweithredoedd yn dangos ôl y maddeuant mwyaf a welodd y byd hwn, sef ym mherson dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Eifion Arthur Roberts